**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, Rhagfyr 18fed 2006 yn Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I K Hearle (Swyddog Monitro dros dro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân ); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol , Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol , Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); D G Roberts (Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Ran Amser); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Edwards (Rheolwr Diogelwch Sir Ddinbych): S Roberts (Pennaeth yr Adran Rheoli Adnoddau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| I R Miller | Clerc a Swyddog Monitro |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi caniatáu newid i'r drefn fusnes, yn dilyn cais gan y swyddogion. Byddai adroddiadau'r Trysorydd yn cael eu trafod yn syth wedi Adroddiad y Cadeirydd er mwyn i'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) allu gadael y cyfarfod i deithio i Ddwyrain Sussex i gynrychioli'r Awdurdod yn angladd Mr Brian Wembridge, sef un o ddau aelod o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Dwyrain Sussex a laddwyd yn y ffrwydrad yn y ffatri tân gwyllt yn Ringmer yn gynharach yn y mis.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd ei fod, oherwydd ceisiadau, wedi caniatáu cynnal trafodaeth am ddwy ohebiaeth dan 'Faterion Brys': sef llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Abermaw, a llythyr a anfonwyd gan y Prif Swyddog Tân at yr holl staff. Byddai'r ddwy eitem yn cael eu trafod dan eitem fusnes rhif 17.

## 3) Cyhoeddiadau

Cyn cyhoeddiadau'r Cadeirydd, cafwyd munud o dawelwch gan yr aelodau a'r swyddogion er cof am y ddau aelod o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Dwyrain Sussex a gollodd eu bywydau yn y ffrwydrad yn Ringmer.

i. Estynwyd croeso i'r Cynghorydd Glyn Williams i'w gyfarfod cyntaf, sef cynrychiolydd newydd Cyngor Sir Ddinbych ar yr Awdurdod.
ii. Rhoddwyd croeso i'r Cynghorydd Sue Jones i'r cyfarfod wedi iddi fod yn yr ysbyty yn ddiweddar.
iii. Talwyd teyrnged i Mr D Bryan Evans, Morfa Nefyn a fu farw ddiwedd yr haf. Bu Mr Evans yn un o gynrychiolwyr Cyngor Gwynedd ar yr Awdurdod ers ei greu yn 1996 tan 2004, a bu'n gyfrannog yn sicrhau

bod yr Awdurdod yn cynnal ei fusnes trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

iv. Cafodd yr aelodau wybod bod cardiau busnes arbennig yn cynnwys negeseuon defnyddiol am ddiogelwch tân a rhifau ffôn arbennig wedi cael eu llunio ar eu cyfer, iddynt eu rhannu i'w hetholwyr.

v. Dyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau yn y dyfodol: cafodd yr aelodau wybod bod cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub i'w gynnal ddydd Llun, Mawrth 19eg 2007 yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 10.30 y bore. Byddai'r Panel Gweithredol yn cyfarfod ddydd Mercher, Ionawr 24ain 2007 a Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg (RRP) yn cyfarfod ddydd Mawrth, Ionawr 30ain 2007, a byddai'r ddau gyfarfod yn dechrau am 10 y bore ac yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Atgoffwyd yr aelodau fod holl aelodau'r Panel Gweithredol hefyd yn aelodau o Weithgor y Cynllun Lleihau Risg a bod gan bob aelod o'r Awdurdod yr hawl i fynychu unrhyw un o gyfarfodydd pwyllgorau yr Awdurdod.

vi. Atgoffwyd yr aelodau y byddai Gwasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys yn cael ei gynnal y noson honno yng Nghadeirlan Bangor.

vii. Atgoffwyd yr aelodau hefyd fod angen i'r derbynebau TAW, os oeddent yn hawlio costau milltiroedd, fod wedi ei dyddio un ai cyn, neu ar, ddyddiad y daith.

I ymateb i'r eitem ddiwethaf, mynegodd nifer o'r aelodau eu pryder eu bod yn colli ad-daliadau am filltiroedd a deithiwyd gan nad oeddent yn gallu darparu digon o dderbynebau i ymorol am eu costau teithio i bob corff yr oeddent yn gwasanaethu arno. Esboniodd y Trysorydd fod y gallu i hawlio'n ôl y TAW dan amgylchiadau o'r fath yn dod dan ddeddfwriaeth genedlaethol oedd yn cyd-fynd â rheolau yr Undeb Ewropeaidd a'i bod yn annhebygol y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn newid. Fodd bynnag, yn ei dyb ef, ni ddylai neb 'golli' milltiroedd yr oedd ganddynt hawl i'w cael yn ôl. Dywedodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) wrth yr aelodau ei bod wedi edrych ar y mater a'i bod yn ymddangos bod yr Awdurdod yn hawlio tua gwerth £10,000 o TAW yn ôl am y lwfansau milltiroedd a delir. Roedd o'r farn y gallai'r Awdurdod fod yn gwario tua'r un faint yn gweinyddu proses ddilysu ar gyfer y ceisiadau am dreuliau milltiroedd ag yr oedd yn ei ennill yn y TAW. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. anfon llythyr at Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn sôn am y pryderon a'r trafferthion y mae'r aelodau'n eu wynebu os ydynt yn gwasanaethu ar sefydliadau eraill ac/neu os oes ganddynt fusnesau preifat y mae angen derbynebau TAW ar gyfer y rheini hefyd, a cheisio barn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch ffyrdd i oresgyn y trafferthion hyn; a***

***ii. llunio adroddiad a'i gyflwyno i gyfarfod o'r Panel Gweithredol yn y dyfodol gan restru costau gweinyddu'r cynllun dilysu derbynebau TAW am***

***danwydd mewn perthynas â cheisiadau'r aelodau a'r swyddogion am hawlio costau teithio o'i gymharu â'r manteision ariannol i'r Awdurdod o ran hawlio'r elfen TAW o'r ceisiadau am dreuliau milltiroedd.***

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar Hydref 23ain 2006

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. cyfarfod y Panel Gweithredol, Medi 21ain 2006
iii. cyfarfod y Pwyllgor Safonau, Hydref 2il 2006
iv. cyfarfod y Panel Gweithredol, Hydref 9fed 2006

## 5) Materion yn codi

Cododd y materion canlynol o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub, Hydref 23ain 2006:**
**Tud 3, Eitem 5 – Materion yn codi "Cyd-ymateb":** cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod yr Uchel Lys wedi dyfarnu o blaid Undeb y Brigadau Tân (FBU) yn yr achos a ddygwyd gan yr Undeb yn erbyn Awdurdodau Tân ac Achub Swydd Nottingham a Swydd Lincoln mewn perthynas â Chyd-ymateb ac yn arbennig drefniadau cytundebol y Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003. Ers cyhoeddi'r dyfarniad, roedd yr awdurdodau dan sylw wedi cyflwyno apêl. Gan aros canlyniad gwrandawiad yr apêl, roedd y treialon cyd-ymateb, yn lleol ac yn genedlaethol, wedi dod i stop. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y byddid yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod ynghylch materion yn ymwneud â chyd-ymateb unwaith y byddai'r gwrandawiad apêl wedi ei gynnal a'r dyfarniad yn wybyddus. Cafodd yr aelodau wybod bod y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod yr wythnos flaenorol, wedi cytuno y byddai'r Awdurdod, pe gofynnid iddo am gyfraniad, yn cyfrannu swm heb fod yn uwch na £2,000 tuag at gostau'r apêl.

**Tud. 4, Eitem 7 – "Cynllun Lleihau Risg 2007/08":** cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd y byddai llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Abermaw mewn perthynas â'r bwriadau a gefnogwyd gan yr Awdurdod dan ei Gynllun Lleihau Risg (RRP) ar gyfer 2007/08 yn cael ei drafod dan eitem fusnes rhif 17.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) a oedd yn rhoi i'r aelodau y diweddaraf yn gryno am cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd ganddo ef fel Cadeirydd, a gan yr Is-Gadeirydd yn ei absenoldeb, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar Hydref 23ain 2006. Cafodd yr aelodau wybod y cytunwyd ar newidiadau i'r taliadau am wasanaeth hir i staff lifrai yng nghyfarfod Cyd-Gyngor Brigadau Tân Awdurdodau Lleol (NJC) y bu'n bresennol ynddo y dydd Gwener cynt. Byddai rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn yn cael eu darparu i'r awdurdodau a'r staff maes o law. Felly:

***Penderfynwyd:* - nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad.**

## 7) Materion yn ymwneud â Chronfeydd Wrth Gefn y Pensiynau a'r awdurdodau cyfansoddol

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd, mewn ymateb i gais gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf, yn rhestru'r symiau ariannol y gellid eu dychwelyd i'r awdurdodau cyfansoddol o Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau'r Awdurdod. Esboniodd fod y trefniadau newydd ar gyfer ariannu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a oedd i ddod i rym yn Ebrill 2007, yn ei gwneud yn ddianghenraid i'r Awdurdod gadw Darpariaeth mor fawr ar gyfer Pensiynau. Yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod, roedd rhai aelodau wedi mynegi pryder y gallai'r llywodraeth ganolog, yng ngoleuni'r trefniadau newydd ar gyfer ariannu, fynnu bod arian y Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau yn cael ei dalu i'r Cynulliad. Rhoddodd y Trysorydd sicrwydd eto i'r aelodau na allai'r Cynulliad gymryd camau o'r fath gan mai'r awdurdodau cyfansoddol oedd yn berchen ar arian y Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau. Aeth yn ei flaen i esbonio mai ei gyngor ef oedd i'r Awdurdod gadw cyfanswm o £792k at y dibenion a nodwyd yn ei adroddiad, a dychwelyd £1m i'r awdurdodau cyfansoddol pro rata yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2004. Roedd prif swyddogion cyllid yr awdurdodau perthnasol wedi eu hysbysu o'r bwriadau, ac am y symiau arfaethedig i'w had-dalu i bob awdurdod, fel y nodwyd ym mharagraff 6 o'r adroddiad. Hyd yn hyn, ni ddaeth unrhyw wrthwynebiad i law ynghylch y bwriadau. Ni fyddai modd i'r Awdurdod, wrth ddychwelyd yr arian i'r awdurdodau cyfansoddol, gynnwys cafeat yn rhagnodi y gallai'r Awdurdod Tân ac Achub ofyn i'r symiau, neu gyfran ohonynt, gael eu had-dalu i'r Awdurdod i leddfu unrhyw bwysau o ran pensiynau. Felly, dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau y byddai'n awgrymu i'r awdurdodau cyfansoddol iddynt ddefnyddio dim ond rhan o'r swm a ddychwelid i leddfu effaith y gostyngiad yn y Grant Cefnogi Refeniw, gan y gallai'r Awdurdod Tân ac Achub ofyn am gymorth ariannol ychwanegol ganddynt rywbryd yn y dyfodol. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

*i. cadw £665k o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau at ymrwymiadau yn y dyfodol o ran pensiynau;*
*ii. defnyddio £127k o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau i ariannu costau sefydlu'r Ystafell Reoli ar gyfer y Tri Gwasanaeth os cytunir y bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen; ac*
*iii. ad-dalu £1m o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau i'r awdurdodau cyfansoddol fel a fanylwyd ym mharagraff 6 o'r adroddiad.*

## 8) Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2007/08 a'r rhagolwg ar gyfer 2008/09 a 2009/10

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi cyllideb ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2007/08 i'r aelodau, ac i geisio eu cymeradwyaeth i'r bwriadau oedd yn yr adroddiad. Esboniodd fod yr adroddiad yn rhestru'r gwahanol bwysau a chyfyngiadau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu wrth bennu ei flaenoriaethau a llunio ei gyllideb ar gyfer 2007/08, a bod y bwriadau a gyflwynwyd i'r aelodau yn cynrychioli 'cyllideb ddigyfnewid' â dim lle i unrhyw gynnydd sylweddol. Yn y gorffennol bu'r Awdurdod yn ffodus yn yr ystyr y gallai gynnal ei gyllideb gyda thanwariannau'r blynyddoedd blaenorol. Yn anffodus, nid felly y byddai yn y flwyddyn i ddod gan fod yr holl ddarpariaethau bellach wedi eu dihysbyddu. I ateb cais y dylai adroddiadau'r Trysorlys gael eu cyflwyno ar ffurf fwy dealladwy gan ddefnyddio llai o derminoleg dechnegol, dywedodd y Trysorydd ei fod yn cydymdeimlo â'r aelodau yn hyn o beth ond roedd raid cyflwyno'r mathau yma o adroddiadau ar ffurf oedd yn cydymffurfio â gofynion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Dywedodd y Cynghorydd E C George fod Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan y dylai awdurdodau lleol ystyried gosod cyllidebau tair blynedd o 2008 ymlaen. Roedd hefyd o'r farn mai mater o arfer dda i'r Awdurdod fyddai i'w Banel Gweithredol fod yn rhan o'r broses o bennu'r gyllideb yn gynnar. Roedd y Cadeirydd yn cytuno â'r farn hon. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> -***

*i. cymeradwyo cyllideb ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2007/08, sef £29.456m*
*ii. bod yr awdurdodau cyfansoddol yn cael eu hysbysu am y cyfraniadau sydd eu hangen am y tro ar gyfer 2007/08 fel a nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad;*
*iii. cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus fel a nodwyd yn Atodiad C;*
*iv. cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol fel a fanylwyd yn Atodiad D;*
*v. cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2007/08 a'r dulliau cysylltiedig ar gyfer ariannu; ac*
*vi. os bydd unrhyw newidiadau'n dod i'r amlwg cyn Ionawr 31ain 2007, dirprwyo i'r Panel Gweithredol bwerau'r Awdurdod i newid lefel y gyllideb neu, os bydd unrhyw arbedion yn dod i'r amlwg wedi'r dyddiad hwn ond cyn Chwefror 15fed 2007, dirprwyo'r pŵer hwn i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc;*

***vii. bod y Panel Gweithredol yn cael ei gynnwys yn y broses gynllunio ariannol yn y blynyddoedd i ddod.***

**9) Dirprwyo pwerau mewn perthynas â derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael yr Awdurdod i ddirprwyo ei bwerau i'w Banel Gweithredol mewn perthynas â derbyn Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06. Cafodd yr aelodau wybod gan y Trysorydd na allai Swyddfa Archwilio Cymru (WAO), sef archwilydd allanol yr Awdurdod, yn anffodus, gwblhau a chyfieithu Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 mewn pryd i'w gyflwyno i'r cyfarfod cyfredol. Felly:

***Penderfynwyd: - dirprwyo pwerau'r Awdurdod mewn perthynas â derbyn Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 yn ffurfiol i'r Panel Gweithredol.***

Gadawodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) y cyfarfod yn y fan hon.

**10) Yr arbedion ariannol amcangyfrifedig ar orsafoedd criw dydd**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am yr arbedion ariannol a gafwyd o ganlyniad i weithredu'r amseroedd shifftiau newydd ar orsafoedd criw dydd. Yn yr adroddiad a'r atodiadau, roedd cefndir y newid yn amseroedd y shifftiau, data am nifer y galwadau yr aethpwyd atynt yn y cyfnod nosweithiol newydd pan roedd y staff yn y gorsafoedd o'i gymharu â'r cyfnod boreol blaenorol pan roedd y staff yn y gorsafoedd, ac amcangyfrif o'r arbedion ariannol a welodd yr Awdurdod o ganlyniad i'r newid. Er mai prif nod y newid oedd i amseroedd y shifftiau gyd-fynd â'r adegau mwyaf prysur, roedd yn hynod dda cael adrodd bod y newid hwn wedi arwain at arbedion ariannol. Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) wrth yr aelodau mai amcangyfrifon ceidwadol iawn oedd y ffigurau ariannol amcangyfrifedig oedd yn yr adroddiad. Da oedd nodi hefyd, o'r data a ddarparwyd, fod nifer y digwyddiadau yr oeddid yn mynd atynt mewn cyfnod o 24 awr yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd hyn yn dangos bod gwaith diogelwch tân cymunedol yr Awdurdod hefyd yn talu ar ei ganfed. Dywedodd yr Is-Gadeirydd fod yr adroddiad yn cadarnhau llwyddiant penderfyniad yr Awdurdod i newid amseroedd y shifftiau, ac awgrymodd nad oedd angen rhagor o adroddiadau am hyn. Felly:

***Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad, ac na fyddai angen rhagor o adroddiadau ar y pwnc hwn.***

11.20y.b.: gadawodd y Trysorydd y cyfarfod yn y fan hon.

## 11) Gwaith diogelwch tân cymunedol ar orsafoedd criw dydd

Wrth gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), i roi gwybod i'r aelodau am lefel y gweithgareddau diogelwch cymunedol ar orsafoedd criw dydd cyn y newid ym mhatrwm y shifftiau ac wedi hynny, esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y dylid ystyried yr adroddiad ar y cyd â'r eitem fusnes flaenorol. Yna, aeth drwy'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad a'r atodiadau cyn ateb cwestiynau'r aelodau. Mynegodd y Cynghorydd W J Chorlton ei bryder y gallai'r Gwasanaeth, o ganlyniad i'r newid yn amseroedd shifftiau ar orsafoedd criw dydd fod yn methu o ran yr agwedd diogelwch tân cymunedol o'i waith gan nad oedd staff ar gael ar adegau rhesymol o'r dydd i allu cael mynediad i gartrefi pobl i gynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref. Dywedodd yr Is-Gadeirydd mai canolbwyntio ar y gweithgareddau diogelwch cymunedol ar orsafoedd criw dydd yn unig yr oedd yr adroddiad gerbron yr aelodau. Roedd yn bwysig cofio bod gwaith diogelwch tân cymunedol y Gwasanaeth yn ymestyn ymhellach na'r gorsafoedd criw dydd: roedd staff yr Adran Diogelwch Tân Cymunedol, yr ymarferwyr a staff y system dyletswydd ran amser i gyd yn rhan o'r math yma o waith. Roedd felly o'r farn mai da o beth fyddai i'r aelodau gael adroddiad oedd yn rhestru faint o waith diogelwch tân cymunedol yr oedd yr holl staff drwy'r Gogledd yn ei wneud.

11.50am: Gadawodd y Cynghorydd W T Owen y cyfarfod yn y fan hon.

Hefyd, gofynnodd y Cynghorydd George i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am ba mor hygyrch yw'r gwasanaeth Diogelwch Tân Cymunedol, ynghyd â gwybodaeth am lefel y cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth a'r awdurdodau lleol ynghylch materion diogelwch cymunedol. Roedd y Prif Swyddog Tân yn croesawu cynnwys yr olaf, ac esboniodd ei fod wedi ysgrifennu'n ddiweddar at arweinwyr a phrif weithredwyr yr awdurdodau cyfansoddol, i ofyn am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth mewn materion yn ymwneud â diogelwch cymunedol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a bod adroddiad yn cael ei lunio i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod yn rhestru faint o waith diogelwch tân cymunedol a wnaed drwy'r Gogledd gan orsafoedd llawn amser, criw dydd a rhan amser a gan dîm Diogelwch Tân Cymunedol y Gwasanaeth. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys manylion lefel y cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth a'r awdurdodau lleol mewn perthynas â gwaith diogelwch cymunedol.***

## 12) Cymhathu o Rengoedd i Rolau

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am y broses o symud yn barhaol o rengoedd i rolau yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Esboniodd mai diben yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth gefndirol i'r aelodau fel cymorth iddynt ddeall y weithdrefn a ddilynwyd yn y

broses o gymhathu o rengoedd i rolau. Byddai'r wybodaeth hefyd yn gymorth iddynt ddelio â'r llythyrau a anfonwyd atynt gan Undeb yr FBU a gan aelodau unigol o blith y staff a oedd yn teimlo'n ddig am y broses. Trwy gyfrwng cyflwyniad PowerPoint, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) drwy gefndir y broses o gymhathu o rengoedd i rolau, sef proses a oedd yn deillio o Gytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003. Soniodd am Gylchlythyrau amrywiol y Cyd-Gyngor (*NJC*) a oedd yn rhoi arweiniad i awdurdodau tân ac achub ynghylch y trefniadau ar gyfer cymhathu staff am y tro o'r hen strwythur cyflogau yn seiliedig ar rengoedd i'r strwythur newydd yn seiliedig ar rolau, y symudiad parhaol o'r rhengoedd i rolau, yn ogystal ag arweiniad ynghylch materion yn ymwneud â diogelu cyflogau. Gan nad oedd yr arweiniad a ddaeth gan y Cyd-Gyngor yn darparu proses bendant ar gyfer symud o rengoedd i rolau, cafodd yr aelodau wybod hefyd fod y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, lle roedd cynrychiolaeth o Undeb yr FBU, i greu model i'w weithredu yng Nghymru. Wedi cwblhau ei waith a chreu model, a oedd yn ymgorffori system fesuradwy argymelledig y Cyd-Gyngor ar gyfer pwyso a mesur swyddi a gweithdrefn ar gyfer apeliadau, roedd y model wedi ei roi ar waith drwy Gymru ers Gorffennaf 1af 2006. Cyn ateb cwestiynau'r aelodau, esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) fod y sefyllfa bresennol yn y Gogledd o ran y broses a'r goblygiadau ariannol i'r Awdurdod fel y gwelid yn ei adroddiad.

Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) wybod i'r Awdurdod mai yn fewnol y gwrandewid ar bob apêl, ac nad oedd yr un Aelod yn rhan o'r broses, ond y byddai Prif Swyddog o awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru yn bresennol yn y gwrandawiad at ddiben gwirio'r broses. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r aelodau fod Undeb yr FBU yn rhanbarthol wedi cael eu briffio'n rheolaidd am hynt y grŵp gorchwyl a gorffen yn datblygu model i'w weithredu, a hynny er mwyn cael y broses ymgynghori orau bosib. Gan fod nifer o'r aelodau wedi datgan eu bod yn dal mewn penbleth ynghylch yr holl broses, cynigiodd Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth anfon atynt gopi o ddogfen Modiwl a Matrics proses y Rhengoedd i Rolau. Byddai'r ddogfen yn gymorth iddynt ddeall y broses a ddilynwyd yn ogystal a'u darparu â'r broses sgorio a ddefnyddiwyd i benderfynu ar gymhathu rolau. Holodd yr Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd W J Chorlton a fyddai modd i'r Awdurdod ystyried diogelu cyflogau deiliaid presennol swyddi effeithiwyd dan y broses gymhathu gydol eu gyrfaoedd yn y swyddi hynny, a hynny er mwyn peidio â thramgwyddo staff ffyddlon. Wedi trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. nodi'r adroddiad;***
- ***ii. dosbarthu copi o fodiwl a matrics Rhengoedd i Rolau i bob aelod er mwyn egluro'r weithdrefn a ddilynwyd a'r rolau y cymhathwyd y rhengoedd iddynt; ac***

***iii. wedi cwblhau'r broses o gymhathu o Rengoedd i Rolau, bod adroddiad pellach ynghylch canlyniadau'r broses o gymhathu i lefelau rheolaeth eraill (Rheolwr Gorsafoedd, Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Maes) yn cael ei gyflwyno i'r aelodau ar Fawrth 19eg 2007. Dylai hwn gynnwys manylion y cam diweddaraf yn y broses gymhathu a'r costau tebygol i'r Awdurdod o ran diogelu cyflogau deiliaid presennol y swyddi gydol eu gyrfaoedd yn y swydd benodol honno, petai'r Awdurdod yn penderfynu darparu diogelwch o'r fath.***

## 13) Yr Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Drafft ar Lwfansau i Aelodau

Yn absenoldeb y Clerc, cafodd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael yr Awdurdod i gytuno ar ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ynghylch Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 ei gyflwyno gan y Swyddog Monitro dros dro. Aeth y Swyddog Monitro dros dro ati i fanylu ar y wybodaeth oedd yn yr adroddiad a chyngor y Clerc mewn perthynas â'r dull y dylai'r Awdurdod ei ddilyn wrth ymateb i'r Ymgynghoriad.

***Penderfynwyd: - anfon ymateb i Lywodraeth y Cynulliad erbyn Rhagfyr 21ain 2006 ynghylch yr ymgynghoriad ar Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 yn unol â'r cyngor a amlinellwyd ym mharagraff 6 o'r adroddiad.***

## 14) Rhybudd o Gynnig

Cyflwynodd y Cynghorydd C Shone y cynnig canlynol ar gyfer ystyriaeth yr aelodau: "Yr wyf fi, a enwir isod, yn gofyn i'r Awdurdod Tân ystyried trefnu ymweliad ar gyfer holl aelodau'r Awdurdod â Choleg y Gwasanaeth Tân yn Moreton-in-Marsh yn y dyfodol agos".

Esboniodd y Cynghorydd Shone ei fod ef ac aelod arall, yn dilyn Cynhadledd Walesfire 2006, wedi bod yn trafod pa mor ymarferol a manteisiol fyddai i aelodau'r Awdurdod ymweld â Choleg y Gwasanaeth Tân. Roeddent wedi dod i'r casgliad y byddai ymweliad o'r fath o fudd i'r aelodau yn eu rôl ar yr Awdurdod ac yn cyfrannu at eu rhaglen ddatblygu. Cafodd yr aelodau wybod gan Mr Gary Brandrick, Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth, mai'r unig ran o wasanaethau'r Coleg yr oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu prynu, ers i'r Coleg droi i fod yn fenter fasnachol annibynnol, oedd yr hyfforddiant ar safle tân. Wedi trafodaeth, ac wedi ystyried y pwysau ar y gyllideb:

***Penderfynwyd: - trefnu ymweliad undydd i bob aelod sydd â diddordeb i Goleg y Gwasanaeth Tân ym Moreton-in-Marsh, a chasglu manylion nifer yr aelodau sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymweliad ac adrodd ynghylch hynny i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar Ionawr 24ain 2007.***

## 15) Cyflwyniad ar effaith y Polisi Rheoli Presenoldeb

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân gyflwyniad i'r aelodau am Bolisi newydd yr Awdurdod ar Reoli Presenoldeb a'i effaith ar gyfraddau absenoldeb salwch y Gwasanaeth hyd yn hyn. Diben y polisi newydd, a oedd mewn grym ers mis Ebrill, oedd gwella lefelau absenoldeb salwch y Gwasanaeth trwy annog staff i ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted ag y bo modd. Roedd pob cymorth yn cael ei roi i'r staff i ddychwelyd i'r gwaith ac, os oedd angen ac os oedd hynny'n briodol, gellid dychwelyd i'r gwaith fesul camau. Roedd dyletswyddau eraill hefyd yn cael eu cynnig i aelodau o'r staff nad oedd yn gallu parhau yn eu rolau blaenorol. Roedd y Gwasanaeth yn cydnabod bod pob diwrnod a gollid oherwydd absenoldeb yn golygu llai o effeithlonrwydd, yn peryglu safon ac yn cael effaith negyddol ar forâl. O'r herwydd, roedd yn cael effaith niweidiol ar allu'r sefydliad i ddarparu gwasanaeth o safon i'r cyhoedd. Roedd hefyd yn golygu fod arian trethdalwyr yn cael ei ddefnyddio'r aneffeithlon. Cafodd yr aelodau wybod mai'r gost flynyddol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ystod 2005/06, am absenoldebau salwch am bob gweithiwr oedd £727 y pen ar gyfartaledd am 10.7 o ddiwrnodau o salwch, neu £68 y dydd am bob person. Aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân yn ei flaen i esbonio bod y Gwasanaeth, dan y system newydd, wedi tynhau'r polisi ar adolygu presenoldeb. Roedd gwahanol ddulliau wedi eu hymgorffori yn y Polisi er mwyn lleihau cyfraddau absenoldeb salwch; roedd y rhain yn cynnwys lleihau'r amser cyn cyfeirio at yr Uned Iechyd Galwedigaethol a chaniatáu i staff eu cyfeirio eu hunain i'r Uned, gostwng nifer y diwrnodiau o 8 i 5 cyn cymryd camau i adolygu cofnodion absenoldeb salwch, ac annog y staff i gymryd perchnogaeth o'u cyfnodau o salwch eu hunain trwy ddilyn y gweithdrefnau hysbysu a dychwelyd i'r gwaith priodol. Roedd Rheolwyr Llinell wedi cael yr hyfforddiant priodol i'w cynorthwyo i reoli presenoldeb yn rhagweithiol, monitro lefelau salwch, cynnig cefnogaeth i'w staff, a lle bo angen, weithredu'r broses orfodaeth yn unol â pholisi gallu neu ddisgyblaeth y Gwasanaeth. Roedd aelodau newydd o staff yn cael sesiwn ymwybyddiaeth o'r Polisi Rheoli Presenoldeb fel rhan o'u hyfforddiant cynefino.

Ers Ebrill 2006 roedd Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd ar Iechyd Galwedigaethol mewn lle. Yn dilyn proses dendro, roedd y darparwyr blaenorol, sef Cyngor Sir y Fflint, wedi llwyddo yn eu tendr am y cytundeb diwygiedig newydd. Yn gynwysedig yn y cytundeb newydd roedd 16 o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gofynion swyddogaethol y cytundeb, a'u diben oedd mesur a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu, ac i werthuso effeithiolrwydd. Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o'r asesiadau risg straen/risg arbennig yn y gweithle; y gwasanaethau cwnsela sydd ar gael i staff; y system hunangyfeirio; y system gyfeirio wedi digwyddiad; ymweliadau â'r cartref a'r cynghorion ynghylch iechyd a ffitrwydd sydd ar gael.

Cyn cyflwyno'r polisi, roedd llythyrau wedi eu hanfon at bob Meddyg Teulu yn y Gogledd i godi ymwybyddiaeth am y Polisi y byddai'r Gwasanaeth yn ei weithredu, ac yn rhoi gwybod iddynt fod dyletswyddau gwahanol i

ddyletswyddau arferol y staff ar gael fel opsiwn i allu dychwelyd i'r gwaith yn gynt. Yn ogystal â hyn, a gyda'r bwriad o wella iechyd a lles cyffredinol pob aelod o'r staff, roedd y Gwasanaeth yn ceisio am y Wobr Iechyd Corfforaethol. Trwy geisio'r wobr hon, byddai'r Gwasanaeth yn archwilio'n llwyr ei weithdrefn llunio polisïau er mwyn sicrhau bod pob polisi yn dryloyw, yn gydgysylltiedig ac yn rhoi ystyriaeth i iechyd a lles y staff.

Er mai dim ond ers mis Ebrill yr oedd y Polisi mewn grym, roedd y Gwasanaeth eisoes ar ei ennill gan fod nifer y diwrnodiau a gollwyd oherwydd salwch yn gostwng.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd S C Jones, dywedodd y swyddogion fod staff yn dal i ddefnyddio canolfannau adsefydlu'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Gallai unigolion naill ai eu cyfeirio eu hunain i'r canolfannau hyn neu gael eu cyfeirio gan y meddyg Iechyd Galwedigaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân am ei gyflwyniad.

### 16) "Er Gwybodaeth

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn "Er Gwybodaeth" i'r aelodau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y cylchgrawn***

### 17) Materion Brys

**Llythyr gan Gyngor Tref Abermaw:** rhoddodd y Swyddog Monitro dros dro wybod i'r aelodau fod llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Tref Abermaw wedi i'r Awdurdod gymeradwyo ei Gynllun Lleihau Risg ar gyfer 2007/08. Roedd Cyngor y Dref wedi ysgrifennu at y Cadeirydd wedi iddynt dderbyn sylwadau gan Gymdeithas Trigolion Abermaw mewn perthynas â'r penderfyniad i symud y peiriant deuddiben oedd yn Abermaw ar hyn o bryd i Ddolgellau. Roedd penderfyniad yr Awdurdod wedi ei drafod gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân yn ystod ei ymweliad â Chyngor y Dref ym mis Tachwedd ond roedd Cyngor y Dref yn dal o'r fan nad oeddid yn mynd i'r afael yn foddhaol â'u pryderon. Darllenodd y Swyddog Monitro dros dro y llythyr yn ei gyfanrwydd i'r aelodau, ac roedd yn rhestru pryderon Cyngor y Dref. Er bod yr aelodau'n derbyn bod y Cynllun Lleihau Risg wedi cael ei gymeradwyo yn ei gyfarfod diwethaf a bod y gwaith ar y gweill i weithredu'r newidiadau y cytunwyd arnynt, roeddent o'r farn y dylai Gweithgor y Cynllun Risg, o ystyried y pwyntiau a godwyd gan Gyngor y Dref, roi rhagor o ystyriaeth yn ei gyfarfod nesaf i'r polisi oedd yn ymwneud â symud y peiriannau deuddiben. Cyn pleidleisio, ceisiodd y Cadeirydd gyngor y Swyddog Monitro dros dro ynghylch ei hawl i bleidleisio ynghylch y mater. Dywedodd y Swyddog Monitro dros dro y byddai'n cael bwrw ei bleidlais oherwydd mai'r cynnig gerbron yr Awdurdod oedd ailedrych ar y penderfyniad

drwy'r Gogledd i gyd, er mai Cyngor Tref Abermaw, sef cyngor y mae'n aelod ohono, oedd wedi codi'r mater. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***- yng nghyfarfod nesaf Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar Ionawr 30ain 2007 rhoi ystyriaeth i bolisi'r Awdurdod, dan ei Gynllun Lleihau Risg ar gyfer 2007/08, ynghylch lleoliadau'r peiriannau deuddiben. Gan aros trafod y mater yn y cyfarfod hwnnw penderfynwyd gohirio'r broses ail-leoli a fod adroddiad pellach i gael ei lunio ar gyfer y Gweithgor yn rhoi manylion y peiriannau a dynnwyd ymaith/symudwyd hyd yn hyn.***

**Llythyr y Prif Swyddog Tân at y staff:** Mynegodd y Cynghorydd W J Chorlton ei bryder ynghylch llythyr a anfonwyd gan y Prif Swyddog Tân ar Hydref 11eg 2006 at yr holl staff yn dilyn y cynnydd diweddar yn nifer y marwolaethau oherwydd tanau yn yr ardal. Roedd nifer o aelodau o'r staff wedi cysylltu ag ef yn dweud eu bod yn teimlo bod y llythyr yn ansensitif ac yn gwneud iddynt deimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n iawn a'u bod yn annheilwng o'u swyddi gyda'r Gwasanaeth. Roedd y Cynghorydd Chorlton o'r farn nad oedd y cynnydd diweddar yn nifer y marwolaethau i'w briodoli i ddiffyg ar ran y staff. O'r brig i lawr y dylid beirniadu, a dylai hynny gynnwys aelodau'r Awdurdod gan mai hwy oedd yn gyfrifol yn y pen draw am gadarnhau polisïau. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cynghorydd Chorlton ei fod yntau wedi derbyn cwynion am dôn y llythyr. Roedd wedi trafod y pryderon hyn gyda'r Prif Swyddog Tân, ac roedd ef wedi ei sicrhau fod cynnwys y llythyr wedi ei anelu at bob aelod o staff, gan mai gohebiaeth a anfonwyd at bawb oedd hwn. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân mai "ni" oedd wedi ei ddefnyddio yn y llythyr, ac nad oedd yr un cyfeiriad at "chi" ynddo. Aeth y Prif Swyddog Tân yn ei flaen i esbonio mai cefndir ei benderfyniad i anfon y llythyr at yr holl staff oedd y cynnydd annerbyniol yn nifer y marwolaethau damweiniol oherwydd tanau mewn cartrefi yn ardal Gogledd Cymru ers Ebrill 2006. Yn y llythyr, roedd wedi gofyn i'r holl staff gydweithredu'n llwyr gyda'r Tasglu a sefydlodd at ddiben casglu gwybodaeth a thystiolaeth i gynorthwyo'r Awdurdod i lunio polisïau, strategaethau a gweithdrefnau i fynd i'r afael â phroblem gynyddol a thueddiad oedd yn peri gofid. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Prif Swyddog Tân y gellid darparu copi o'r llythyr, a oedd wedi ei fwriadu i'w ddosbarthu yn fewnol yn unig, i'r aelodau a oedd yn y bresennol yn y cyfarfod ac nad oeddynt wedi gweld copi. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***- bod copi o lythyr y Prif Swyddog Tân at yr holl staff ynghylch y cynnydd diweddar yn nifer y marwolaethau oherwydd tanau yn yr ardal, yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac nad oeddynt wedi gweld copi.***

Holodd y Cynghorydd G Williams a oedd y Prif Swyddog Tân wedi derbyn ymatebion boddhaol i'r llythyrau yr oedd wedi eu hanfon at arweinwyr a phrif weithredwyr y chwe awdurdod unedol yn gofyn am eu cymorth er mwyn gwella'r sianelau cyfathrebu a gwella'r gwaith cydweithredol rhwng adrannau gwahanol yr awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn ceisio

gostwng nifer y marwolaethau oherwydd tân a diogelu'r dinasyddion mwyaf bregus. Wrth ateb y Cynghorydd Williams, dywedodd y Prif Swyddog Tân ei fod, ers i gopi o'r llythyr gael ei anfon at yr holl aelodau, wedi derbyn atebion gan bob cyngor, naill ai'n uniongyrchol gan y prif weithredwyr neu gan eu hadrannau gwasanaethau cymdeithasol. I ateb cais arall gan y Cynghorydd Williams i rannu copïau o'r ymatebion gyda'r aelodau, dywedodd y Prif Swyddog Tân nad oedd mewn sefyllfa ar hyn o bryd i rannu'r ohebiaeth gyda hwy. Mynegodd ei fod yn barod i drafod ymateb eu cyngor eu hunain gyda hwy yn unigol.

Atgoffwyd yr aelodau gan yr Is-Gadeirydd ei bod yn bwysig bod pob un ohonynt yn rhagweithiol yn hyrwyddo materion diogelwch cymunedol o fewn eu hawdurdodau eu hunain.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod yr eitem fusnes oedd yn weddill ar yr agenda heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth drafod yr eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.***

## <u>RHAN II</u>

### 18) "Tân 1af" – Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl

Cyn i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi'r diweddaraf eto i'r aelodau am brosiect Gorsaf Dân Gymunedol Tân Cyntaf y Rhyl, cafodd yr aelodau gyflwyniad am y prosiect gan Mr Alyn Edwards, sef Rheolwr Diogelwch Sir Ddinbych gyda'r Gwasanaeth. Yn ei gyflwyniad, soniodd Mr Edwards am gefndir y prosiect, y gwaith ymchwil a wnaed gan Fwrdd y Prosiect, a oedd yn cynnwys ymweld â gwahanol fathau o orsafoedd tân cymunedol ledled Prydain, manylion y partneriaethau a grëwyd gyda gwahanol asiantaethau a sefydliadau yn Sir Ddinbych a oedd wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r adnoddau a fyddai ar gael, a'r broses o ymgysylltu â chymuned yr ardal yn ystod y diwrnod agored yn yr orsaf. Pwysleisiodd Mr Edwards ei bod yn bwysig cofio mai drwy fentrau partneriaethol y derbyniwyd dros 33% o'r enwau a'r cyfeiriadau ar gyfer archwiliadau diogelwch tân cymunedol yn Sir Ddinbych. Trwy gyfrwng sleidiau, gwelodd yr aelodau argraff arlunydd o'r orsaf dân arfaethedig a gweld y cynllun lloriau ar gyfer yr orsaf. Cafodd yr aelodau wybod bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig cefnogaeth ariannol yn ffurfiol i'r prosiect hyd at gyfanswm o £400k o'i Gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol. Hefyd derbyniwyd cadarnhad yn ddiweddar oddi wrth Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth y Cynulliad ei bod yn fodlon cefnogi'r prosiect a

rhoi Grant Amgylcheddol a Gwella Trefi tuag at y gwaith adeiladu allanol. Roedd ceisiadau eraill am arian wrthi'n cael eu llunio a'u cyflwyno i wahanol sefydliadau.

Yna, cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad gan roi gwybod i'r aelodau fod y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar Ragfyr 12fed, wedi argymell y dylai'r Awdurdod gymeradwyo'r prosiect. Aeth drwy'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses dendro ac adeiladu, y costau rhedeg a amcangyfrifir ar gyfer ochr gymunedol yr orsaf, ynghyd â'r costau i'r Awdurdod petai'n penderfynu rhoi'r gorau i'r prosiect ar yr adeg hon. Pwysleisiodd hefyd fod darpariaeth wedi ei wneud ar gyfer cost y Prosiect yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2007/08, ac roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo honno yn gynharach. Soniodd y Cynghorydd J A Smith, un o aelodau Grŵp y Prosiect, am y gwaith ymchwil a wnaed a'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan y gymuned leol. Atgoffodd yr aelodau hefyd mai prif amcan yr Awdurdod Tân ac Achub oedd amddiffyn y gymuned ac arbed bywydau. Yn ei dyb ef, byddai gwireddu'r prosiect hwn yn gymorth yn hynny o beth.

Mynegodd y Cynghorwyr W J Chorlton a S C Jones eu pryderon am hyfywedd economaidd tymor hir y prosiect. Yn eu tyb hwy roedd y ffaith mai elusennau cofrestredig, neu asiantaethau'n ymwneud ag awdurdodau lleol, oedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau a'r partneriaid oedd wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r adnoddau yn destun pryder. Nifer cyfyngedig o adnoddau ariannol oedd gan y sefydliadau hyn, ac felly ni fyddent yn gallu talu cyfraddau masnachol am logi'r adnoddau. Dywedodd y Cynghorydd G Williams, fel cynghorydd yn ardal y Rhyl, fod barn ei gyd-aelodau yn ei dristau yn hyn o beth, a bod Dwyrain y Rhyl mewn dirfawr angen adnoddau o'r safon yma. Cynigiodd gynghori'r swyddogion am lifoedd arian eraill a allai fod ar gael i'r Awdurdod er mwyn sicrhau hyfywedd tymor hir y Prosiect. Wedi trafodaeth fanwl a phleidlais trwy fwyafrif:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. cymeradwyo ariannu'r prosiect hwn i'r swm o £2.482m i alluogi edrych am dendrau cystadleuol gan gontractwyr adeiladu; ac***
- ***ii. mai Opsiwn 2 oedd yr opsiwn ariannu orau.***

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45 y prynhawn.